



Newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i'r gyfraith am Ofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn cryno hawdd ei ddeall o'r ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus y GIG.

Hydref 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig

E-bost: SocialCareConsultation@gov.wales



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl o'r fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad	4
1. Stopio busnesau rhag gwneud arian o ofalu am blant sydd yn derbyn gofal.....	5
Beth rydyn ni eisiau ei newid	7
2. Taliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG	8
Beth rydyn ni eisiau ei newid	11
3. Dyletswydd i adrodd am blant ac oedolion mewn perygl	12
Beth rydyn ni eisiau ei newid	13
4, 5 a 6. Newid sut rydyn ni'n rheoli ac yn edrych i weld sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wneud.....	14
Beth rydyn ni eisiau ei newid	15

Cyflwyniad



Mae'r ddogfen yma am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i **Ofal Cymdeithasol** a **Gofal Iechyd Parhaus y GIG**.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer gwneud hyn.



Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda ac yna ateb y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.



Anfonwch eich ymatebion inni erbyn **12 pm hanner nos** ar **Ddydd Llun 7 Tachwedd 2022**.

1. Stopio busnesau rhag gwneud arian o ofalu am blant sydd yn derbyn gofal



Rydyn ni'n gweithio gyda Plaid Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y gorau rydyn ni'n gallu ar gyfer **plant sydd yn derbyn gofal**.



Plant sydd yn derbyn gofal ydy plant mewn gofal cyhoeddus. Maen nhw mewn gofal cyhoeddus oherwydd nad ydy eu rhieni geni yn gallu gofalu amdany'n nhw. Maen nhw'n cael eu rhoi:

- gyda gofalwyr maeth
- mewn cartrefi gofal
- neu gydag aelodau eraill y teulu.



Yng Nghymru mae 4 allan o bob 5 cartref gofal i bobl ifanc a phlant yn berchen i gwmnïau preifat.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydy arian cyhoeddus sydd yn cael ei wario ar wasanaethau i blant sydd yn derbyn gofal yn cael ei ddefnyddio ar gyfer **elw** i bobl neu fusnesau. Mae elw yn meddwl gwneud arian.

Mae Gweinidogion Cymru eisiau i arian sydd yn cael ei wario ar y gwasanaethau yma gael ei ddefnyddio i:



- gwella gwasanaethau



- rhoi gwell canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc



- rhoi cyfleoedd i staff gael hyfforddiant a datblygu sgiliau.

Beth rydyn ni eisiau ei newid



Rydyn ni eisiau newid y gyfraith fel ei fod yn dweud mai dim ond cyrff **di-elw** sydd yn gallu darparu gwasanaethau gofal i **blant sydd yn derbyn gofal** yng Nghymru.

Dydy corff **di-elw** ddim yn gwneud elw nac yn gwneud arian i'r perchnogion. Mae'r holl arian yn mynd yn ôl i'r corff.



Fe fydd angen i ni roi rhywfaint o amser i'r darparwyr ddod i arfer gyda'r newid.



Fe fydd rhaid i ddarparwyr newydd sydd yn cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn gorff **di-elw** o **1 Ebrill 2026**.



Fe fydd rhaid i ddarparwyr sydd wedi cofrestru'n barod gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ddod yn gorff **di-elw** erbyn **1 Ebrill 2027**.

2. Taliadau Uniongyrchol a Gofal Iechyd Parhaus y GIG



Mae rhai pobl sydd angen gofal a chymorth yn cael **Taliadau Uniongyrchol** gan eu hawdurdod lleol.



Taliad Uniongyrchol ydy arian y mae gwasanaethua cymdeithasol yn ei roi i chi yn lle gwasanaeth.



Rydych chi'n gallu gwario'r arian ar gael y cymorth a'r gwasanaethau rydych chi eisiau. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i bobl.



Mae gofal iechyd GIG am ddim i bawb. Ond efallai bod rhai pobl gyda chyflyrau iechyd difrifol angen gofal a chymorth hir dymor.



Os oes gennych chi anghenion gofal a chymorth hir dymor efallai eich bod yn gallu cael eich gofal wedi ei drefnu a'i dalu amdano gan y GIG. Mae hyn yn cael ei alw yn **Ofal Iechyd Parhaus y GIG**.



Dydy pobl sydd yn cael **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** ddim yn gallu cael **Taliadau Uniongyrchol**. Oherwydd dydy Taliadau Uniongyrchol ddim yn gallu cael eu defnyddio i dalu am wasanaethau mae'n rhaid i'r GIG eu darparu.



Mae rhai pobl sydd yn cael **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** yn poeni na fydd ganddyn nhw ddewis a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth.

Mae Gweinidogion Cymru eisiau i bobl:



- cael rhagor o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth
- cael llais yn eu gofal a'u cymorth.



Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar newid y gyfraith i roi rhagor o ddewis a rheolaeth i bobl.



Mae hyn yn meddwl bod pobl yn gallu penderfynu sut a phryd maen nhw eisiau cael y gofal a'r cymorth maen nhw ei angen.



Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella sut mae **Gofal lechyd Parhaus y GIG** a **Thaliadau Uniongyrchol** yn gweithio gyda'i gilydd.

Beth rydyn ni eisiau ei newid

Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau i Ddeddf GIG (Cymru) 2006.

Rydyn ni eisiau:



- Byrddau Iechyd Lleol allu rhoi **Taliadau Uniongyrchol** i oedolion sydd yn defnyddio **Gofal Iechyd Parhaus y GIG**. Fe fydd hyn yn helpu pobl i gynllunio ac i gael gwasanaethau i ateb eu anghenion nhw eu hunain.



- Gwerinidogion Cymru i wneud deddfau am beth mae **Taliadau Uniongyrchol** yn gallu cael ei ddefnyddio i dalu amdano. A sut fydd y system yn gweithio.



- Fe ddylai Byrddau Iechyd Lleol alu helpu pobl neu gyrff gyda chwestiynau am **Taliadau Uniongyrchol**.

3. Dyletswydd i adrodd am blant ac oedolion mewn perygl



Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus ddweud rhywbeth os ydyn nhw'n meddwl bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed.



Mae hyn yn meddwl cyrff fel y GIG, yr heddlu, gwasanaeth prawf, timau troseddu ieuenctid ac awdurdodau lleol eraill.



Os ydy plentyn neu oedolyn sydd yn derbyn gofal neu yn cael cefnogaeth gan awdurdod lleol mewn perygl o niwed, mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus o dan y gyfraith i adrodd am hyn wrth yr awdurdod lleol sydd yn darparu'r gofal.

Beth rydyn ni eisiau ei newid



Mae llawer o drafodaethau wedi bod am ddylai'r **dyletswydd i adrodd** gael ei roi ar aelodau unigol o'r staff. A hefyd y corff maen nhw'n gweithio iddo.



Mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar aelodau staff i ddweud rhywbeth os ydyn nhw'n poeni y gallai niwed ddigwydd.



Rydyn ni eisiau gwybod a ddylid cyflwyno dyletswyddau adrodd unigol.



Rydyn ni'n meddwl y gallai rhoi dyletswydd i adrodd ar aelodau unigol o'r staff helpu i amddiffyn plant ac oedolion yn well.

4, 5 a 6. Newid sut rydyn ni'n rheoli ac yn edrych i weld sut mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wneud



Yn 2016, daeth y **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)** yn ddeddf. Dyma ddeddf oedd yn diweddaru sut rydyn ni'n rheoli ac yn cadw llygad ar wasanaethau gofal iechyd.

Nod y diweddariad oedd:



- canolbwyntio mwy ar wella gwasanaethau bob amser yn lle ateb y safonau lleiaf
- canolbwyntio mwy ar ganlyniadau a phrofiadau pobl
- cynyddu'r hyfforddiant a'r sgiliau mae staff ei angen



Rydyn ni wedi gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i weld sut mae'r diweddariadau yma yn gweithio.

Rydyn ni nawr eisiau gwneud rhai newidiadau eto, i'n helpu ni:



- cyflawni'r pethau roedden ni eisiau i'r diweddariadau eu cyflawni
- a datrys y problemau a'r gwendidau sydd wedi dod i'r golwg


Beth rydyn ni eisiau ei newid



Rydyn ni eisiau diweddaru'r **Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**. Rydyn ni eisiau diweddaru pethau fel:



- Sut rydyn ni'n delio gyda gwasanaethau sydd ddim wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.



- Adroddiadau blynyddol mae'n rhaid i ddarparwyr eu hysgrifennu.



- Rhoi gwybod i gyrff pan mae angen iddyn nhw wella.



- Disgrifio yn union beth mae **gofal** yn ei feddwl i blant a phobl ifanc.



- Sut mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn adnewyddu eu cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.



- Beth sydd yn digwydd pan mae **ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer** yn digwydd. Dyma pan mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn edrych i weld bod gweithiwr gofal cymdeithasol yn gallu gwneud eu gwaith yn iawn.



Rydyn ni hefyd eisiau diweddarau'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol. Rydyn ni eisiau i'r holl weithwyr gofal plant a chwarae gael eu cynnwys yn y diffiniad. Fel bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu eu cefnogi yn eu gwaith.